

Dyddiadau'r
Arholiadau

Arholiadau'r Hydref

Rhifedd Uned 1

Dydd Mawrth, Tachwedd 6^{ed}

Rhifedd Uned 2

Dydd Iau, Tachwedd 8^{fed}

Arholiadau'r Haf

Mathemateg Uned 1

Dydd Mawrth, Mai 21^{ain}

Mathemateg Uned 1

Dydd Iau, Mehefin 6^{ed}

Adnoddau & Cefnogaeth

PIXL / My Maths –

Mae gan bob disgybl enw defnyddiwr. Mae'r rhain yn adnoddau rhagorol

Gwefannau –

Mae yna lawer o wefannau gwyb. Defnyddiwch nhw os ydych chi mewn penbleth. Dyma rai awgrymiadau:

BBC Bite Size, Mr Barton Maths, Corbett Maths, a YouTube.

Apiau –

Gojimo (App store a Google Play)

Llyfrau –

WJEC GCSE Maths Intermediate: Revision Guide (My Revision Notes) £7.99

ISBN 978-1-4718-8298-2

Offer –

Yn ychwanegol at eu hoffer arferol, bydd angen i fyfyrwyr gael cyfrifiannell gwyddonol. Rydym yn argymhell y Casio FX-83, a set geometreg.

Amserlen Adolygu – ar gyfer Arholiadau Rhifedd Tachwedd.

Bob amser cinio Dydd Mercher ym mis Hydref 12:30 – 1:00 A104

Hydref	Mercher 10 ^{fed}	Ffug Arholiad	8:45yb – 10:30yb
	Llun 29 ^{ain}	Adolygu Hanner Tymor	9:30yb – 12:30yp
Tachwedd	Llun 5 ^{ed}	Adolygu Uned 1	Gwersi 4 a 5
	Mawrth 6 ^{ed}	Arholiad Uned 1	9:00yb
	Mercher 7 ^{fed}	Adolygu Uned 2	Gwersi 1 a 2
	Iau 8 ^{fed}	Arholiad Uned 2	9:00yb

Technegau Adolygu

1. Cyn dechrau adolygu, rhowch drefn ar eich nodiadau, a lluniwch restr o'r holl bynciau y mae angen i chi eu cynnwys. Mae hyn yn ateb dau ddiben: byddwch yn sicr yn cwmpasu popeth y mae angen i chi ei gynnwys, ac mae ychydig o dacluso a rhoi trefn yn ffordd dda o ymlacio er mwyn gallu dechrau ar y broses adolygu.

2. Cynlluniwch yn union pryd y byddwch chi'n adolygu, a byddwch yn ddisgybledig. Peidiwch â deffro un bore Sadwrn a dweud eich bod chi'n mynd i adolygu drwy'r dydd, oherwydd mae'n deby na fyddwch chi'n gwneud llawer. Dywedwch y byddwch chi'n gweithio o 10 tan 11, yna cymerwch egwyl am hanner awr, yna gweithio eto hyd at 12.30, cael cinio braf, gwneud awr arall, mynd am dro, ac yn y blaen. Os ydych chi'n gwneud darnau bach o adolygu ac yn gwybod bod egwyl yn dod, rydych yn fwy tebygol o ganolbwyntio a bydd eich adolygu yn fwy effeithiol.

3. Rhowch wobrau bach i chi'ch hun, a phethau y gallwch edrych ymlaen atynt os byddwch chi'n cwblhau sesiynau adolygu.

4. Peidiwch â darllen trwy'r gwerslyfr yn unig! Yr unig ffordd i adolygu mathemateg yw gwneud mathemateg. Bydd treulio 20 munud yn gwneud cwestiynau mathemateg yn llawer gwell na threulio dwyawr yn darllen gwerslyfr. Po fwyaf o gwestiynau y byddwch chi'n eu gwneud, y mwyaf fyddwch chi'n eu cael yn gywir, y mwyaf fydd eich hyder, y mwyaf fyddwch chi'n mwynhau eich adolygu, a'r gorau y byddwch chi'n ei wneud yn yr arholiad.

5. Defnyddiwch y rhyngrwyd. Mae'r rhyngrwyd fel cael eich athro personol eich hun sydd ar gael i chi pryd bynnag y dymunwch.

6. Peidiwch ag ymarfer y pynciau rydych chi'n gallu'u gwneud yn unig. Er ei fod yn gallu bod yn boenus, gweithiwch eich ffordd trwy'r pynciau sy'n peri trafferth i chi, gan ei fod yn llawer gwell i fynd i'r afael â nhw gartref, lle mae gennych fwy o amser ac mae'r atebion ar gael, na mynd i drafferth yn yr arholiad.

7. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gofyn am help. Unwaith eto, pan fyddwch chi yn yr arholiad byddwch chi ar eich pen eich hun, ond nid yw hynny'n wir wrth adolygu. Os ydych yn cael trafferth â phwnc neu gwestiwn, gofynnwch i un o'r bobl o'ch dosbarth, neu eich athro, neu rywun gartref, neu chwiliwch y rhyngrwyd. Peidiwch â dioddef ar eich pen eich hun!

8. Ewch ati i ymarfer gwneud cwestiynau dan amodau arholiad. Ffug Arholiadau Mathemateg Hydref 10^{fed}.

9. Ewch ati i ymarfer defnyddio'ch cyfrifiannell! (nid ffôn). Cewch ddefnyddio cyfrifiannell ar gyfer 50% o'ch arholiadau.

10. Os yw'n gweithio i chi, ceisiwch adolygu gyda ffrind am ychydig o'r amser. Byddwch chi'n canfod bod un ohonoch yn deall un pwnc yn well, tra bod y llall yn dipyn o arbenigwr ar bwnc arall.

11. Yn bwysicach na dim, ceisiwch beidio â phoeni. Nid yw poeni ychydig yn beth drwg gan ei fod yn eich helpu i ganolbwyntio, ond heb os ni ddylai adolygu fod yn gyfnod o straen. Os dilynwch yr awgrymiadau uchod, yn enwedig ynglŷn â chreu amserlen adolygu a gofyn am gymorth bob tro, dylech ganfod nad yw adolygu ar gyfer mathemateg (neu unrhyw arholiad arall) yn boenus iawn wedi'r cyfan.

Mr Geraint Simpson – Pennaeth Mathemateg